Cyngor Tref Porthmadog
Ceisiadau am gymorth ariannol

Rheolau a chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr 2027

Pwy sy'n gymwys?
Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau sydd â'u seiliau yn nalgylch y Cyngor Tref sef : Porthmadog, Tremadog, Borth y Gest, Morfa Bychan, yn weithredol yn yr ardal ac yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion dalgych Cyngor Tref Porthmadog.

Gellir ystyried ceisiadau hefyd gan grwpiau sydd â'u pencadlys tu allan i dalgych y Cyngor Tref ond sy'n weithredol yn y dalgylch ac yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion y dalgylch.

Gellir ystyried rhai ceisiadau gan fudiadau cenedlaethol Cymreig yn ymwneud â diwylliant ac economi Cymru sydd yn berthnasol i dalgylch Cyngor Tref Porthmadog.

Math o geisiadau
Gellir ystyried dau fath o gais:
- cais gan gorff am gymorth tuag at gostau gweithgaredd arferol blynyddol; - cais gan gorff, neu unigolyn, tuag at ddigwyddiad neu weithgaredd arbennig.

Pryd i wneud cais?
Mae'n rhaid sicrhau bod eu cais yn cael eu dderbyn cyn 31ain o Ionawr. Bydd ceisiadau dilys yn cael eu hystyried yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor Tref ym mis Chwefror.

Pa wybodaeth sydd angen ei anfon?

Rhaid anfon:
- y ffurflen gais wedi ei chwblhau gydag unrhyw atodiad perthnasol; - Eich cyfrifion yn dangos eich incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ; 4.2.

Cais am ddigwyddiad neu weithgaredd arbennig Rhaid anfon:
- disgrifiad o'r gweithgaredd ac amcanion y digwyddiad;
- amcangyfrif o'r holl gostau cyfalaf a refeniw y digwyddiad;
- amcangyfrif o unrhyw incwm a ddisgwylir o gynnal y digwyddiad;
- manylion ceisiadau am nawdd gan gyrff eraill ar gyfer y digwyddiad; - manylion unrhyw weithgaredd gan eich mudiad i godi arian tuag at gynnal y digwyddiad.

Os na fydd y wybodaeth uchod yn gyflawn ni ellir ystyried eich cais.

Faint o gymorth sy'n bosibl?
Mae'r arian sydd ar gael gan y Cyngor yn gyfyngedig iawn ac ni ellir cyfrannu tuag at pob cais. Fe fydd pob cais dilys yn cael ei ystyried yn fanwl ac, os yn cael ei gytuno, fe fydd y Cyngor yn cyfrannu o fewn eu gallu.

Sut i wneud cais
Gellir llawrlwytho Ffurflen Gais o'r wefan www.cyngortrefporthmadog.org
neu fe allwch ffonio Clerc y Dref ar 07541155462 i gael copi.

Anfonwch eich ffurflen gais gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol i:

clerccyngtreport@gmail.com
Marian Roberts (Clerc),
Swyddfa'r Cyngor Tref,
Y Ganolfan,
Porthmadog,
LL49 9LU

O dderbyn eich cais bydd Clerc y Cyngor yn ei archwilio ac, os fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn, bydd yn rhoddi y cais ar agenda cyfarfod mis Chwefror y Cyngor Tref.

Os na fydd y ffurflen gais yn gyflawn neu os nad ydych wedi amgau'r holl wybodaeth a ofynir yna fe fydd y Clerc yn cysylltu a chwi i egluro na ellir ystyried y cais hyd fyddwch wedi anfon yr holl wybodaeth sydd ei angen. Fe all hyn olygu na fydd yn posibl rhoddi eich cais gerbron y Cyngor Tref ac ni ellir ystyried eich cais yn y flwyddyn ariannol yna.

Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor llawn fe fydd y Clerc yn cysylltu a chwi i adael i chwi wybod beth oedd canlyniad eich cais.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi anfon tystiolaeth ar ffurff adroddiad neu dystiolaeth ffotograffig i'r Cyngor Tref o fewn 12 mis i dderbyn yr arian, i brofi bod yr arian a roddwyd i chi wedi ei ddefnyddio i'r pwrpas y gwnaethpwyd cais amdano.